

## CABINET

Cofnodion cyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Neuadd y Sir, Rhuthun, a thrwy gynhadledd fideo ddydd Mawrth, 17 Rhagfyr 2024, am 10.00am.

### YN BRESENNOL

Y Cynghorwyr Jason McLellan, Arweinydd ac Aelod Arweiniol Twf Economaidd a Threchu Amddifadedd; Elen Heaton, Aelod Arweiniol Iechyd a Gofal Cymdeithasol; Diane King, Aelod Arweiniol Addysg, Plant a Theuluoedd; Alan James, Aelod Arweiniol Datblygu Lleol a Chynllunio; Julie Matthews, Dirprwy Arweinydd a Aelod Arweiniol Polisi, Cydraddoldeb a Strategaeth Gorfforaethol; Barry Mellor, Aelod Arweiniol Yr Amgylchedd a Chludiant; Rhys Thomas, Aelod Arweiniol Tai a Chymunedau, ac Emrys Wynne, Aelod Arweiniol y Gymraeg, Diwylliant a Threftadaeth

**Arsylwyr:** Y Cynghorwyr Ellie Chard, Karen Edwards, Bobby Feeley, Huw Hilditch-Roberts, Hugh Irving, Brian Jones, Delyth Jones, Will Price, Arwel Roberts ac Andrea Tomlin

### HEFYD YN BRESENNOL

Y Prif Weithredwr (GB); Cyfarwyddwyr Corfforaethol: Gwasanaethau Cymdeithasol ac Addysg (NS), Llywodraethu a Busnes / Swyddog Monitro (GW), a'r Amgylchedd a'r Economi (TW); Penaethiaid Gwasanaeth: Cyllid ac Archwilio (LT), Gwasanaethau Priffyrdd a'r Amgylchedd (PJ); Tai a Chymunedau (LG); Cynllunio, Gwarchod y Cyhoedd a Gwasanaeth Cefn Gwlad (EJ); Rheolwr Prosiect - Swyddfa Rhaglen Gorfforaethol (KM); Prif Reolwr Arlwy a Glanhau (HJ); Prif Swyddog - Tai Cymunedol (GD); Prif Swyddog - Tai a Datblygu (HD); Prif Swyddog Eiddo Tai (MC); Rheolwr Cyllid a Sicrwydd (JR); Rheolwr Gwasanaeth - Gwasanaeth Digartrefedd (NJ); Rheolwr Gwarchod y Cyhoedd, Adfywio a Datblygiad Economaidd (GR); Rheolwr Prosiect - Swyddfa Rhaglenni Gorfforaethol (RV); Cydlynwyr Craffu (RE a KE), a Gweinyddwyr Corfforaethol (KEJ a SLW [Gwe ddarllledwr])

#### 1 YMDDIHEURIADAU

Y Cynghorydd Gwyneth Ellis, Aelod Arweiniol Cyllid, Perfformiad ac Asedau Strategol

#### 2 DATGAN CYSYLLTIAD

Ni chafwyd unrhyw ddatganiadau o gysylltiad.

#### 3 MATERION BRYD

Ni chodwyd unrhyw faterion bryd.

#### 4 COFNODION

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ar 13 Tachwedd 2024.

**Materion yn Codi** – Eitem 3: Materion Brys - Gwasanaeth Bws X51 i Landegla - darparodd y Cynghorydd Barry Mellor ddiweddariad ar lafar yn dilyn aflonyddwch i'r gwasanaeth bws i Landegla a gafodd ei godi gan y Cynghorydd Terry Mendies mewn cyfarfod blaenorol. Er nad oedd wedi bod yn bosib cwrdd â'r holl yrwyr roedd y cwmni bysiau wedi cymryd camau gweithredu yn enwedig ynghylch digwyddiad arall lle cymerwyd camau disgyblu ac roedd yr holl yrwyr wedi cael eu rhybuddio i beidio ag osgoi Llandegla o dan unrhyw amgylchiadau. Dyma'r Arweinydd yn diolch i'r Cynghorydd Mendies am dynnu sylw at y mater ac am gyfraniad y Cynghorydd Mellor i geisio datrys y broblem gan dynnu sylw at bwysigrwydd y llwybrau cludiant i gymunedau gwledig.

**PENDERFYNWYD** derbyn cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 19 Tachwedd 2024 a chadarnhau eu bod yn gywir.

## **5 STRATEGAETH DDRAFFT TOILEDAU LLEOL**

Cyflwynodd y Cynghorydd Barry Mellor adroddiad yn gofyn am gymeradwyaeth y Cabinet ar ddrafft o Strategaeth Toiletau Lleol i'r cyhoedd ymgynghori arno.

Pwysleisiodd y Cynghorydd Mellor nad adroddiad ar gau toiletau ydoedd fel y gwelir yn y wasg ond ei fod yn briodol i'r Cyngor gytuno a mabwysiadu Strategaeth newydd cyn gwneud unrhyw benderfyniadau ar y ddarpariaeth a gweithrediad o gyfleustodau cyhoeddus wrth symud ymlaen. Mae'r adroddiad yn cynnwys ychydig o gefndir ar y ddarpariaeth ddeddfwriaethol ynghylch toiletau cyhoeddus a'r gofyniad i awdurdodau lleol i baratoi a chyhoeddi Strategaeth Toiletau Lleol sy'n gorfod cynnwys asesiad o'r angen am doiledau. Mae'r Asesiad o Anghenion Dros Dro Toiletau Lleol a Strategaeth Toiletau Lleol i Sir Ddinbych (yn cynnwys cynllun gweithredu ar sut y mae'r Cyngor yn bwriadu cwrdd â'r gofyn a dynnwyd sylw ato) wedi cael ei atodi i'r adroddiad ynghyd â chwestiynau cyffredin wrth ymateb i sylwadau a dderbyniwyd yn ystod yr ymgynghoriad Asesiad o Anghenion Dros Dro, Asesiad Effaith ar Les a'r risgiau a nodwyd.

Mynychodd Pennaeth Priffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol a'r Prif Reolwr (Arlwyo/Glanhau) yr eitem hon. Cyfeiriodd y Pennaeth Gwasanaeth at waith wedi'i gyflawni hyd yma gan ailadrodd nad oedd penderfyniadau wedi cael eu gwneud ynghylch darparu a gweithredu Cyfleustodau Cyhoeddus yn y dyfodol gan bwysleisio'r pwysigrwydd o Strategaeth a gytunwyd arni fel rhagflas i'r broses gwneud penderfyniadau yn y dyfodol. Gofynnwyd i Gabinet gydnabod y gwaith sydd wedi cael ei wneud a chymeradwyo i ymgynghori ar y Strategaeth drafft.

Codwyd y materion canlynol yn ystod y drafodaeth a ddilynodd –

- manylion pellach wedi'u darparu ar sut y byddai ymgynghoriad cyhoeddus yn cael ei gynnal dros gyfnod o ddeufis er mwyn cyflawni ymgynghoriad mor llawn ac eang ag sy'n bosib gyda gwerthfawrogiad o'r effaith ar nifer o grwpiau gwahanol, amrywiol a chyda phrofiad eang yn y sir a'r natur ddadleuol posib o newid y model gweithredu presennol. Y gobaith oedd derbyn cymaint o wybodaeth ag sy'n bosib gan ddefnyddio'r darganfyddiadau i fformiwleiddio

sefyllfa derfynol y strategaeth ac i helpu gyda gwneud penderfyniadau yn y dyfodol neu i wneud argymhellion wrth symud ymlaen.

- Ar hyn o bryd mae un busnes wedi cofrestru â'r Cynllun Toiledau Cymunedol ac roedd yn bwysig targedu busnesau priodol mewn meysydd allweddol i ymuno â'r cynllun er mwyn cwrdd â'r gofyniad am doiledau cyhoeddus yn y sir; derbyniwyd y gall fod yn anodd recriwtio rhai busnesau ond rhoddwyd sicrwydd y byddai llawer o waith yn cael ei wneud i wneud y mwyaf o fuddion y cynllun a oedd yn cynnwys dysgu o gynghorau eraill sydd wedi bod yn llwyddiannus gyda chynlluniau tebyg.
- Cyfeiriwyd at y feirniadaeth yn y wasg ynglŷn â'r £500 fesul blwyddyn sy'n daladwy am ymuno â'r Cynllun Toiledau Cyhoeddus ac os dylid cynnig rhagor o gymhelliad a cheisio casglu barn ynglŷn â hynny fel rhan o'r broses ymgynghori. Cynghorodd y Pennaeth Gwasanaeth fod y gyfradd o £500 yn gyfradd cenedlaethol sy'n cyd-fynd ag awdurdodau lleol eraill a bod yna gydbwysedd rhwng y goblygiadau ariannol yn sgil cynnydd a chynyddu niferoedd i gofrestru â'r cynllun. O ystyried diffyg cyhoeddusrwydd i'r cynllun hyd yma fe deimlai y byddai'n briodol i ymrwymo cymaint ag sy'n bosib gyda'r gymuned fusnes ar yr un lefel i fesur y lefel o ddiddordeb ac yna i werthuso'r sefyllfa unwaith eto yn dibynnu ar barodrwydd busnesau i ymuno â'r cynllun. Roedd Cabinet yn awyddus i gael ymgysylltiad wedi'i dargedu gyda busnesau ond gofynnwyd iddo gael ei ail-gyflwyno er mwyn iddyn nhw allu ei ystyried ymhellach mewn achos o nifer isel yn cofrestru ar gyfer y cynllun.
- Yn ôl yr adroddiad roedd toiledau Changing Places i'w cael yn Ysgol Glan Clwyd a Tesco Prestatyn ac fe adroddodd swyddogion ar ddarpariaeth yng Nghorwen yn y dyfodol trwy'r Gronfa Ffyniant Bro a hefyd ym Marchnad y Frenhines yn y Rhyl. Derbyniwyd fod darparu cyfleusterau o'r fath yn broses ddud a byddai ymgysylltiad â'r trydydd sector ynghylch unrhyw gyfleoedd posib yn unol â hynny. Tynnodd y Cynghorydd Emrys Wynne sylw at y galw am gyfleusterau newid babanod hefyd sydd ddim angen cymaint o le.
- Bu trafodaethau gyda Chynghorau Tref/Cymuned ynglŷn â chynnal cyfleustodau cyhoeddus gan y cyngor ac i drafod y Strategaeth ddrafft a'r ffordd ymlaen ar yr angen am doiledau cyhoeddus a bu ymateb cymysg ledled y sir gyda rhai yn croesawu a chefnogi'r strategaeth ac eraill ddim yn barod i weithio gyda'r awdurdod lleol - roedd trafodaethau wedi'u cynnal ar sail achos i achos ar gyfer yr ardaloedd dan sylw.
- Wrth ymateb i gwestiwn bod y nifer o ymwelwyr dydd i Ddinbych yn uwch na Llangollen fe eglurodd y Pennaeth Gwasanaeth fod data STEAM wedi cael ei ddefnyddio ar gyfer y nifer o ymwelwyr dydd oedd ddim yn cynnwys y cyfanswm sylweddol o ymwelwyr a oedd yn aros dros nos neu am gyfnod hirach yn y cyfrifiad hynny.

**PENDERFYNWYD** bod y Cabinet yn –

- (a) *cydnabod y gwaith a gwblhawyd hyd yma yn dilyn adolygiad o anghenion y boblogaeth leol a gynhaliwyd drwy ymgynghoriad cyhoeddus ac yn cymeradwyo'r asesiad o anghenion terfynol (cafodd yr Asesiad o Anghenion Dros Dro ei atodi fel Atodiad 2 i'r adroddiad);*

- (b) *cymeradwyo'r strategaeth ddrafft a'r cynllun gweithredu (Atodiad 1 i'r adroddiad) yn unol â Deddf Iechyd Cyhoeddus (Cymru) 2017: Darpariaeth Toiledau;*
- (c) *dirprwyo awdurdod i Aelod Arweiniol Priffyrdd a'r Amgylchedd i gytuno ar unrhyw fân newidiadau golygyddol sydd eu hangen i'r strategaeth ddrafft cyn yr ymgynghoriad cyhoeddus, a*
- (d) *cadarnhau ei fod wedi darllen, deall ac ystyried yr Asesiad o Effaith ar Les (Atodiad 3 yr adroddiad) fel rhan o'i ystyriaethau.*

Ar y pwynt hwn fe ddywedodd y Cynghorydd Arwel Roberts nad oedd yn ymwybodol fod Cyngor Tref y Rhuddlan heb ei gynnwys o ran y Strategaeth ddrafft ac yr hoffai i swyddogion fynychu cyfarfod yn y dyfodol i drafod y mater. Gofynnodd yr Arweinydd i'r Swyddog Monitro godi'r pwnc gyda'r swyddog perthnasol y tu allan i'r cyfarfod.

## **6 GOSOD RHENTI TAI A CHYLLIDBAU CYFALAF A REFENIW TAI 2025/26**

Cyflwynodd y Cynghorydd Rhys Thomas adroddiad yn gofyn i'r Cabinet gymeradwyo'r cynnydd rhent blynyddol ar gyfer Tai Sir Ddinbych, ac i ofyn am gymeradwyaeth i Gyllidebau Cyfalaf a Refeniw y Cyfrif Refeniw Tai ar gyfer 2025/26 a Chynllun Busnes y Stoc Dai.

Roedd yr adroddiad yn cynnwys y sefyllfa derfynol ddiweddaraf a ragwelwyd ar gyfer y Cyfrif Refeniw Tai a'r gyllideb arfaethedig ar gyfer 2025/26 a oedd wedi'i chyfrifo i allu darparu gwasanaethau refeniw, y rhaglen buddsoddi cyfalaf ac i gyflawni safonau ansawdd a datblygu'r rhaglen adeiladu newydd. O ran y cynnydd rhent blynyddol, roedd Llywodraeth Cymru wedi gosod uchafswm cynnydd rhent o 2.7% a chynhigiwyd cynyddu rhenti wythnosol o hynny oherwydd y pwysau ar y Cyfrif Refeniw Tai i fuddsoddi mewn cartrefi er mwyn cyflawni Safon Ansawdd Tai Cymru a cheisio cyrraedd targed y Cynllun Corfforaethol ar gyfer cartrefi newydd. Roedd yr adroddiad wedi'i graffu gan Bwyllgor Craffu Cymunedau yr wythnos ganlynol ac wedi creu argraff.

Cyflwynodd y Pennaeth Tai a Chymunedau y swyddogion oedd yn bresennol. Rhoddodd drosolwg o'r adroddiad gan ddarparu sicrwydd ynghylch pa mor fforddiadwy oedd y cynnydd mewn rhent ar gyfer tenantiaid yn seiliedig ar y matrices rhent a'r bwriad o wario unrhyw gynnydd i gwrdd â'r Safon Ansawdd Tai Cymru gyda rhaglen sylweddol o waith sydd ei angen fel y bo'n briodol ynghyd â'r uchelgais i greu mwy o dai cymdeithasol. Cyfeiriwyd hefyd at y gefnogaeth a ddarperir i denantiaid o ran unrhyw anawsterau ariannol trwy gefnogaeth uniongyrchol gan swyddogion a hefyd comisiynu cefnogaeth gan sefydliadau fel Sir Ddinbych Yn Gweithio a Cyngor ar Bopeth. Yn olaf cyfeiriwyd at Gynllun Busnes y Stoc Dai a'r Cyfrif Refeniw Tai gyda rhagor o waith manwl wedi'i gynllunio o ystyried uchelgais y Cyngor ar gyfer ei stoc dai gyda chreu tai newydd sydd ddim yn fforddiadwy ar hyn o bryd yn seiliedig ar ragamcanion presennol gydag adroddiad yn cael ei gyflwyno i Gabinet yn y flwyddyn newydd.

Roedd y prif feysydd trafod yn canolbwyntio ar y canlynol –

- Roedd Cabinet yn falch o glywed yr adborth yn dilyn craffu'r adroddiad gan Bwyllgor Craffu Cymunedau a oedd yn rhoi mwy o hyder fyth yn yr argymhellion yn ogystal â'r ystyriaeth drwyadl o'r holl ffactorau wedi'u manylu yn yr adroddiad ac yn talu teyrnged i waith y Tîm Tai er budd tenantiaid.
- Cafodd sylw penodol hefyd ei wneud i brosiectau datblygu tai cyngor llwyddiannus yn cynnwys Llys Elizabeth yn y Rhyl a Llys Llên ym Mhrestatyn a phartneriaeth waith agos gydag eraill yn cynnwys datblygiad tai Clwyd Alyn ar Stryd Edward Henry, y Rhyl i gyd yn enghreifftiau o dai fforddiadwy o ansawdd gwyh.
- Roedd aelodau'n croesawu'r ymrwymiad i beidio â throï tenantiaid allan o'u cartrefi oherwydd caledi ariannol wrth iddyn nhw geisio cydweithio â'r cyngor gan nodi fod y mwyafrif o denantiaid yn fodlon gofyn am help a chyngor; nodwyd cydweithio agos gyda'r Tîm Atal Digartrefedd.
- Roedd ffocws ar y rhaglen gwres fforddiadwy gydag oddeutu £9m y flwyddyn yn cael ei wario ar waith cyfalaf gyda thua 13000 o atgyweiriadau cyffredinol yn cael eu cyflawni; y safon ddiwygiedig sydd ei angen i godi lefelau EPC ar gyfer holl gartrefi hyd at C75 a thra bod ychydig o gyllid grant yn cael ei ddarparu ar gyfer y diben hwnnw roedd darparu'r safon hynny yn ddrud ac ar y cyfan ddim yn fforddiadwy ac erbyn 2027 roedd angen cynllun yn ei le i ddangos sut y byddai'r safon ddiwygiedig yn cael ei gyflawni erbyn 2030.
- Roedd cydbwysedd i'w ganfod rhwng sicrhau fod rhent yn fforddiadwy i denantiaid a sicrhau buddsoddiad yn y stoc dai i elwa'r tenantiaid hynny a llwyddiant yr ymagwedd sydd wedi'i weithredu yn Sir Ddinbych fel bod ag un o'r cyfraddau bodlonrwydd tenantiaid uchaf yng Nghymru o ran gwasanaeth a gwerth am arian.

#### **PENDERFYNWYD –**

- Mabwysiadu Cyllideb y Cyfrif Refeniw Tai ar gyfer 2025/26 (Atodiad 1 yr adroddiad) a Chynllun Busnes y Stoc Dai (Atodiad 2 yr adroddiad);*
- cynyddu rhenti anheddau'r Cyngor yn unol â Pholisi Llywodraeth Cymru ar gyfer Rhenti Tai Cymdeithasol o 2.7% i rent wythnosol cyfartalog o £112.29, i'w weithredu o ddydd Llun, 7 Ebrill 2025;*
- nodir adroddiad ychwanegol (Atodiad 3 yr adroddiad) ar yr ystyriaethau y rhoddir sylw iddynt wrth benderfynu ar yr argymhelliad hwn, a*
- bod y Cabinet yn cadarnhau ei fod wedi darllen, deall ac ystyried yr Asesiad o Effaith ar Les (Atodiad 4 yr adroddiad) fel rhan o'i ystyriaethau.*

## **7 ADRODDIAD CYLLID**

Cyflwynodd y Cynghorydd Gwyneth Ellis, Pennaeth Cyllid ac Archwilio yr adroddiad misol a oedd yn manylu ar y sefyllfa ariannol ddiweddaraf a'r cynnydd a wnaed o ran y strategaeth y cytunwyd arni ar gyfer y gyllideb a chymeradwyaeth pellach sydd wedi'i argymell.

Rhoddyd crynodeb o sefyllfa ariannol y Cyngor fel a ganlyn –

- y gyllideb refeniw net ar gyfer 2024/25 oedd £271.021 miliwn (£250.793 miliwn yn 2023/24)
- rhagwelwyd y byddai tanwariant o £4.285m mewn cyllidebau gwasanaeth a chorfforaethol
- y risgiau a'r rhagdybiaethau presennol yn ymwneud â chyllidebau corfforaethol a meysydd gwasanaeth
- arbedion effeithlonrwydd gan wasanaethau ar gyfer cyllideb 2024/25 (£10.384 miliwn) a chynnydd ar gyflawni arbedion a gymeradwywyd oedd yn parhau i gael eu holrhain/monitro
- y wybodaeth ddiweddaraf am Ysgolion, y Cyfrif Refeniw Tai a Rheoli'r Trysorlys.

Gofynnwyd hefyd i Gabinet gymeradwyo sail Treth y Cyngor wrth osod cyllideb 2025/26; y defnydd o'r gronfa cyfalaf wrth gefn i ariannu gorwariant ar Gynllun Lôn Parcwr a'r achos busnes cyfalaf yn berthnasol i Ysgol y Castell, Rhuddlan sydd wedi cael ei gynnwys fel atodiad cyfrinachol. Gofynnwyd i Gabinet symud i sesiwn breifat os ydyn nhw'n dymuno trafod yr elfen gyfrinachol o'r adroddiad.

Arweiniodd y Pennaeth Cyllid ac Archwilio yr Aelodau drwy'r adroddiad. Rhagwelir y bydd tanwariant o £4.285 miliwn ar gyllidebau gwasanaethau a chorfforaethol o'i gymharu â thanwariant o £479,000 y mis diwethaf. Mae'r symudiad sylweddol cadarnhaol o ganlyniad i Lywodraeth Cymru yn dyrannu cyllid ychwanegol yn ystod y flwyddyn i gefnogi pwysau cyflog a chostau pensiwn athrawon. Mae gwasanaethau yn ei gyfanrwydd yn parhau i orwario mewn meysydd yn cynnwys Addysg a Gwasanaethau Plant, Gwasanaethau Priffyrdd a'r Amgylchedd, ac i raddau llai Cynllunio, Gwarchod y Cyhoedd a Gwasanaethau Cefn Gwlad. Roedd tanwariant mewn Gofal Cymdeithasol i Oedolion a Digartrefedd yn debyg i hynny a gafodd ei adrodd dros y misoedd diwethaf. Amlygwyd ardaloedd risg uchel yn cynnwys Cludiant Ysgol. Mae'r gorwariant mewn rhai gwasanaethau wedi cael ei wrthbwysu gan y tanwariant ar gyllidebau corfforaethol o ganlyniad i ryddhau cyllidebau arian at raid a dyfarniad cyllid grant gan Lywodraeth Cymru. Byddai angen rhoi ystyriaeth gofalus i'r lefel o danwariant a'i ddefnydd yn y dyfodol. Mae manylion wedi'i gynnwys yn yr adroddiad ar y Cyfrif Refeniw Tai a sefyllfaoedd ysgolion.

Mae'r Arweinydd a'r Prif Weithredwr wedi cyfeirio at yr effaith gadarnhaol ar sefyllfa'r gyllideb yn sgil y canlyniadau yn ystod y flwyddyn yn dilyn Cyllideb Llywodraeth y DU ym mis Hydref a dyraniad Llywodraeth Cymru o gyllid grant ychwanegol ynghyd â'r setliad dros dro a gyhoeddwyd i lywodraeth leol ar gyfer 2025/26. Trefnwyd Briff Cyllideb Aelodau ar gyfer y diwrnod blaenorol i ddarparu diweddariad i'r holl gynghorwyr ar fanylion setliad dros dro Llywodraeth Cymru gyda diweddariad llawn ar y sefyllfa i gael ei gyflwyno i Gabinet ym mis Ionawr. Cynghorodd y Pennaeth Cyllid ac Archwilio er bod y setliad dros dro yn well na'r disgwyl ni fyddai'r cyllid ychwanegol yn ddigon ar gyfer yr holl bwysau cyllidebol ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf a byddai angen dod o hyd i arbedion ynghyd â chynnydd mewn Treth y Cyngor er mwyn cyflawni cyllideb gytbwys ar gyfer 2025/26.

**PENDERFYNWYD** bod y Cabinet yn –

- (a) *nodï'r cyllidebau a bennwyd ar gyfer 2024/25 a'r cynnydd yn ôl y strategaeth y cytunwyd arni;*
- (b) *cymeradwyo Sylfaen y Dreth Gyngor i osod cyllideb 2025/26 fel y manylir yn Atodiad 3 yr adroddiad;*
- (c) *cymeradwyo'r defnydd o'r gronfa gyfalaf wrth gefn i ariannu'r gorwariant ar gynllun Lôn Parcwr, fel y manylir yn Adran 6.8 i'r adroddiad, a*
- (d) *cymeradwyo achos busnes Ysgol y Castell i'w gyflwyno i Raglen Gyfalaf Llywodraeth Cymru fel y manylir yn Adran 6.9 ac Atodiad 5 yr adroddiad.*

## **8 RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL Y CABINET**

Cyflwynwyd rhaglen waith i'r Cabinet i'w hystyried, a nododd yr aelodau'r diwygiadau canlynol –

- Llythyr Blynyddol Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru - wedi symud o Ionawr i Chwefror
- Cytundeb Gofal Cartref Gogledd Cymru - wedi symud o Ionawr i Chwefror
- Strategaeth Economaidd Sir Ddinbych - symud o Chwefror i Fawrth
- Trefniadau Llywodraethu Cyd-bwyllgor Corfforedig - symud o Ionawr i Chwefror/Mawrth

***PENDERFYNWYD*** *nodï rhaglen waith y Cabinet.*

### **Gwahardd y wasg a'r cyhoedd**

***PENDERFYNWYD*** *o dan Adran 100A Deddf Llywodraeth Leol 1972, y dylid gwahardd y Wasg a'r Cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer yr eitemau busnes a ganlyn ar y sail ei fod yn ymwneud â datgelu gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym Mharagraff 14 Rhan 4 Atodlen 12A y Ddeddf.*

## **9 GWASANAETH CEFNOGAETH ATAL DIGARTREFEDD A CHAM-DRIN DOMESTIG SIR DDINBYCH, PROSIECT GRANT CEFNOGI TAI (HSG) - AILGARTREFU'N GYFLYM**

Cyflwynodd y Cynghorydd Rhys Thomas adroddiad cyfrinachol gyda manylion ar ganlyniad yr ymarfer tendro am Wasanaeth Cefnogi Atal Digartrefedd a Cham-drin Domestig newydd gan ofyn i Gabinet am gymeradwyaeth i ddyfarnu'r cytundeb.

Yn unol â'r gwaith o bontio at Ailgartrefu Cyflym, dyluniwyd Gwasanaeth Cefnogi Atal Digartrefedd a Cham-drin Domestig i gefnogi pobl sy'n byw yn Sir Ddinbych i gadw eu llety ac i atal digartrefedd gyda ffocws ar gefnogi goroeswyr cam-drin domestig. Darparwyd manylion o'r ymarfer tendro a gwerthuso gyda'r ffioedd tendr wedi'u cadarnhau o fod yn cyd-fynd â'r gyllideb a bod y gwerth am arian wedi cael ei werthuso fel rhan o'r broses caffael. Byddai'r cytundeb am gyfnod o bum mlynedd (gyda'r dewis i ymestyn am ddwy flynedd arall) gyda'r gwasanaeth yn dechrau ym mis Ebrill 2025.

Ymhelaethodd y Rheolwr Gwasanaeth – Digartrefedd ar gryfderau'r darparwr a ffefrir gan dynnu sylw at bwysigrwydd y ddarpariaeth gwasanaeth a oedd hefyd yn cynnig gwerth gwych am arian. Ystyriodd Cabinet yr adroddiad gan ddiolch i swyddogion am eu gwaith caled o ran hynny a darparwyd adroddiad manwl gyda'r wybodaeth berthnasol wedi'i osod mewn trefn ar gyfer gallu gwneud penderfyniad.

**PENDERFYNWYD** bod y Cabinet yn –

- (a) *cydnabod fod ymarfer tendr teg a chadarn wedi ei gynnal yn unol â Rheolau Gweithdrefn Contractau Sir Ddinbych ac a oedd wedi nodi 'enillydd' clir (fel y nodir yn adran 3.1 yr adroddiad) a oedd wedi amlinellu rhaglen fanwl a oedd yn bodloni amcanion a dyheadau manylion y prosiect a nodir yn y cais tendr (Atodiad 3 i'r adroddiad);*
- (b) *cytuno i ddyfarnu'r contract i'r darparwr contract a enwir (fel nodir yn adran 3.2 yr adroddiad) yn seiliedig ar eu cynigion tendr ar lefel y ffi a gynigir, a*
- (c) *chadarnhau ei fod wedi darllen, deall ac ystyried yr Asesiad o Effaith ar Les (Atodiad 2 i'r adroddiad) fel rhan o'i ystyriaethau.*

## **10 PENODI CONTRACTWYR AR GYFER FFRAMWAITH CYNNAL A CHADW AC AILWAMPIO TAI GWAG**

Cyflwynodd y Cynghorydd Rhys Thomas adroddiad cyfrinachol ynglŷn â chanlyniad y broses gaffael ar gyfer y Fframwaith Tai Gwag, a'r argymhellion ynghylch penodi contractwyr fel y gwelir yn yr adroddiad.

Wrth i denantiaid Gwasanaeth Tai'r Cyngor symud golygai fod oddeutu 250 o dai'n wag bob blwyddyn, ac fe gâi'r rheiny eu hadnewyddu yn ôl y safonau newydd ar gyfer eu gosod i denantiaid eraill. Byddai Fframwaith Tai Gwag yn arbed costau ac amser o wneud gwaith ar dai gwag, ac yn galluogi'r Cyngor i wella'r gwasanaeth a chodi safonau. Mae'r fframwaith gwreiddiol wedi dod i ben ac or herwydd hynny bu'n rhaid cynnal y broses ail-dendro ac roedd angen penderfynu penodi contractwyr ar y telerau wedi'u hamlinellu yn yr adroddiad. Roedd y tendr wedi'i rannu yn 4 Lot yn ôl gwerth y prosiectau.

Trafododd Cabinet gyda swyddogion y cyfanswm o letyai gwag sydd wedi eu gadael yn wag tra bod gwaith yn cael ei wneud i'w cael nhw i safon lle gellir eu gosod a bod hynny yn cael ei fonitro gyda rhai rhagdybiaethau yn y gorffennol yn cael eu profi gyda'r bwriad o leihau'r amser y mae'r tai yn wag os ydi hynny'n bosib. Cytunodd swyddogion i ddarparu rhagor o fanylion ar y cyfartaledd amser y mae tai yn wag ar gyfer y Cynghorydd Diane King ar ôl y cyfarfod. O ran ffigyrau digartrefedd y galw mwyaf oedd ar gyfer teuluoedd mawr a chartrefi un llofft ac mae gwaith yn cael ei wneud mewn partneriaeth â Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig i fynd i'r afael yn arbennig â'r ddau alw hynny.

**PENDERFYNWYD** bod y Cabinet yn –

- (a) *cadarnhau ei fod wedi darllen, deall ac ystyried yr Asesiad o'r Effaith ar Les (Atodiad 2 yr adroddiad) fel rhan o'i ystyriaethau, a*



(b) *penodi'r contractwyr fel yr argymhellir a manylir yn Nhabl 1 (adran 3.2 yr adroddiad) sydd wedi cael ei werthuso yn unol â'r fethodoleg sgorio a phwysoli a fanylir o fewn y dogfennau tendro, ar gyfer Fframwaith Tai Gwag yn ôl y telerau a amlinellir o fewn yr adroddiad.*

## **11 MARCHNAD Y FRENHINES Y RHYL GWEITHREDIADAU / RHEOLI**

Cyflwynodd y Cynghorydd Jason McLellan adroddiad cyfrinachol yn gofyn am gymeradwyaeth gan Gabinet i ddatblygu a dyfarnu cytundeb i reoli Marchnad y Frenhines yn y Rhyl.

Mae ychydig o gefndir wedi'i gynnwys yn yr adroddiad i ddatblygiad Marchnad y Frenhines ynghyd â diweddariad ar y cynnydd hyd yma yn cynnwys dewisiadau wedi'u hystyried gan y Bwrdd Prosiect a'r ffordd ymlaen a argymhellir. Mae'r rhesymau y tu ôl i'r argymhellion yn cynnwys manteision a risgiau wedi'u cynnwys yn yr adroddiad ynghyd â'r goblygiadau a'r mesurau lliniaru ariannol posib yn unol â hynny.

Ychwanegodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol: Arweiniodd Yr Amgylchedd a'r Economi y Cabinet trwy'r adroddiad gan roi manylion ar y sefyllfa ar hyn o bryd. O ran y ffordd ymlaen roedd manylion pellach wedi'u darparu ar y cwmni rheoli a ffefrir o ran gwybodaeth a phrofiad a'r cryfderau o ddyfarnu cytundeb iddyn nhw weithredu'r cyfleuster. Fodd bynnag roedd risg yn perthyn i unrhyw brosiect ac amlygwyd sut y byddai'r risgiau hynny yn cael eu lliniaru gan gynnwys cyfrifoldeb y Cyngor i warantu unrhyw golledion ar gyfer cyfnod y cytundeb rheoli.

Ystyriodd y Cabinet yr adroddiad yn ei gyfanrwydd ac ailedrychwyd hefyd ar gryfderau'r prosiect gyda'r Cyngor yn caffael safle sy'n afeilliedig ac yn methu i ddarparu cyfleoedd adfywio cyffrous ac i atynnu mewn buddsoddiad a chynlluniau uchelgeisiol ar gyfer ei ddefnydd yn y dyfodol. Mae Marchnad y Frenhines yn rhan allweddol o weledigaeth adfywio'r Cyngor i'r Rhyl a fyddai hefyd yn gweithredu fel catalydd ar gyfer datblygiad a buddsoddiad yn y dyfodol. Cafodd diolch ei ymestyn i'r cyn Gabinet a'r Arweinydd, y Cynghorydd Hugh Evans am roi'r prosiect ar waith a'u gwaith caled yn unol â hynny.

Trafododd Cabinet agweddau amrywiol yr adroddiad gyda swyddogion ac roedden nhw'n awyddus i sicrhau fod cyfleoedd i fusnesau lleol ac i wneud y mwyaf o'r cymhwysedd a bod y cyfleuster yn cael ei defnyddio trwy gydol y flwyddyn. Amlygwyd y pwysigrwydd o hyrwyddo a defnyddio'r Gymraeg a diwylliant Cymru yn y cyfleuster. Darparodd swyddogion sicrwydd ynghylch y ddarpariaeth a chefnogaeth o safon yn lleol sydd ar gael i ddechrau busnes gyda llawer o'r gwaith yn cael ei wneud gyda lefelau rhent priodol i gyflawni'r nodau hynny ac i ddarparu atyniad o safon uchel trwy gydol y flwyddyn gyda chyfleoedd bellach ar gyfer canol y dref a'r ardal ehangach a chyfeiriwyd hefyd at welliannau adfywio ehangach yn cynnwys y Cyllid Ffyniant Bro ar gyfer gwelliannau i'r parth cyhoeddus a chyllid grant arall a fyddai'n cyfleu agwedd gadarnhaol. Cydnabuwyd hefyd y gwaith sy'n cael ei wneud o ran diogelwch cymunedol yn yr ardal a chydweithio agos â Heddlu Gogledd Cymru. Darparwyd sicrwydd hefyd ynglŷn â'r broses o hyrwyddo'r cynnig Cymraeg a bod trafodaethau eisoes wedi'u cynnal gyda'r cwmni rheoli arfaethedig

a gwaith a chefnogaeth pellach gydag eraill yn cynnwys Swyddog Cymraeg y Cyngor a Menter Iaith yn unol â hynny.

Ar ôl ystyried yr adroddiad yn ofalus yn cynnwys y cryfderau ar gyfer y ffordd ymlaen ynghyd â'r risgiau a'r goblygiadau ariannol

**PENDERFYNWYD** bod y Cabinet yn –

- (a) *dirprwyo awdurdod i'r Cyfarwyddwr Corfforaethol: yr Amgylchedd a'r Economi am ddyfarnu contract i'r parti a enwir ac am y cyfnod a nodir yn adran 3.1 yr adroddiad, fel yr argymhellwyd gan Fwrdd y Prosiect. Byddai awdurdod dirprwyedig yn destun ymgynghoriad gyda Swyddog Adran 151, Swyddog Monitro, Pennaeth Gwasanaethau Cymorth Corfforaethol: Perfformiad, Digidol ac Asedau, a'r Aelodau Arweiniol perthnasol;*
- (b) *cytuno i warantu unrhyw golledion am gyfnod y contract rheoli, yn unol ag adran 6 yr adroddiad. Rhagwelwyd y gallai hyn gael ei gwmpasu gan gyllideb bresennol, a ddatblygwyd yn benodol at ddiben cefnogi adfywio, a*
- (c) *chadarnhau ei fod wedi darllen, deall ac ystyried yr Asesiad o Effaith ar Les (Atodiad 1 i'r adroddiad) fel rhan o'i ystyriaethau.*

Daeth y cyfarfod i ben am 11.50am.